Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

INF52W

# Cerbydau mawr y gallwch chi eu gyrru gan ddefnyddio eich trwydded car, lori neu fws



Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/browse/driving**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INF52W
11/22

# Cynnwys

Taflenni gwybodaeth ........................................... 2
Cerbydau nwyddau y gellir eu gyrru ar drwydded car lawn (categori B) ........................ 3
Bysiau y gellir eu gyrru ar drwydded car lawn (categori B)........................................... 4
Oedrannau ieuengaf ........................................... 5
Disgrifiadau o gategorïau cerbydau cyn 19 Ionawr 2013 ........................................... 6
Disgrifiadau o gategorïau cerbydau ar 19 Ionawr 2013 neu ar ôl hynny ........................ 8
Sut y bydd cerbydau'n cael eu dosbarthu? ....... 10

**Darllenwch y daflen hon yn ofalus.**

**Mae'n esbonio y gallwch yrru cerbydau mawr neu fysiau gan ddefnyddio eich trwydded yrru lori neu gar.**

Rhaid i bob gyrrwr proffesiynol bws, coets a lori fod â Thystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrrwr (CPC Gyrrwr) yn ogystal â thrwydded yrru alwedigaethol. Am ragor o gyngor cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) ar 0300 200 1122 neu ebostiwch drivercpc@dvsa.gov.uk

## Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth ar:

- yrru ym Mhrydain Fawr ar drwydded a gyhoeddwyd y tu allan i Brydain Fawr ewch i www.gov.uk/driving-nongb-licence
- yrru bws mini ewch i www.gov.uk/driving-a-minibus
- drwydded ôl-gerbydau a gofynion oedran www.gov.uk/towing-rules

Gallwch hefyd archebu taflenni gwybodaeth:

- ar-lein https:/www.gov.uk/dvlaforms
- drwy ffonio 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg

# Cerbydau nwyddau y gellir eu gyrru ar drwydded car lawn (categori B)

**Gallwch yrru unrhyw un o'r cerbydau mawr canlynol, y gelwir hwy yn gerbydau nwyddau 'wedi'u heithrio'.**

- cerbydau nwyddau a yrrir gan stêm, (er enghraifft, cerbydau mawr gydag injan sy'n llosgi glo neu goed)
- unrhyw gerbydau adeiladu ffyrdd sy'n cael eu defnyddio neu'n cael eu cadw ar y ffordd er mwyn cludo peiriannau adeiladu ffyrdd sydd wedi eu cysylltu iddynt (gyda neu heb ddeunyddiau a ddefnyddir gyda'r peiriannau hynny)
- unrhyw offer peirianneg (cerbydau sydd wedi'u cynllunio neu eu hadeiladu ar gyfer gwaith peirianneg), ac eithrio craeniau symudol
- tryc gwaith a gynlluniwyd i'w defnyddio ar eiddo preifat neu yn yr ardal gyfagos o amgylch iddo (er enghraifft, tryciau, dadlwythwyr a wagenni forch godi)
- tractorau diwydiannol (tractorau a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer gwaith cludo oddi ar ffyrdd cyhoeddus) yn pwyso ddim mwy na 7370cg gyda llwyth, ac wedi'u cynllunio i deithio ddim cyflymach nag 20mya
- cerbydau modur amaethyddol a ddefnyddir oddi ar y ffordd a ddim yn dractorau, (er enghraifft, chwistrellwyr cnydau a chombeiniau)
- peiriannau cloddio (cerbydau gyda bwcedi neu rawiau cloddio) sydd yn teithio ar ffyrdd cyhoeddus i fynd yn ôl ac ymlaen o safleoedd gwaith yn unig lle defnyddir hwy ar gyfer gwaith cloddio neu rofio
- cerbydau nwyddau:
  - a ddefnyddir ar ffyrdd cyhoeddus yn unig i symud rhwng tir sy'n eiddo i'r person sy'n cadw'r cerbyd, a
  - sydd ddim yn teithio yn bellach na chyfanswm o 9.7 cilomedr ar ffyrdd cyhoeddus yn ystod unrhyw wythnos (o hanner nos ar ddydd Sadwrn hyd hanner nos y Sadwrn canlynol)
- cerbydau nwyddau, ar wahân i gerbydau modur amaethyddol:
  - a ddefnyddir yn unig ar gyfer dibenion amaethyddol, garddwriaethol neu goedwigaeth
  - sydd ond yn cael eu defnyddio ar ffyrdd yn unig i symud rhwng tir a berchnogir neu a ddefnyddir gan geidwad y cerbyd
  - ddim yn teithio'n bellach na 1.5 cilomedr ar ffyrdd ar y tro
- cerbydau nwyddau na chânt eu defnyddio i unrhyw ddiben ond symud badau achub ac offer angenrheidiol y badau achub
- cerbydau nwyddau a gynhyrchwyd cyn 1 Ionawr 1960, cyn belled â'u bod heb lwyth nac yn tynnu ôl-gerbyd â llwyth arno
- cerbydau nwyddau cymalog sy'n pwyso llai na 3.05 tunnell heb lwyth

- cerbydau nwyddau a ddefnyddir gan lu arfog neu bencadlys ar ymweliad â'r wlad (fel y nodir yng Ngorchymyn Lluoedd a Phencadlysoedd Rhyngwladol Ar Ymweliad Gweithredu Cyfreithiol 1965(a))
- cerbydau nwyddau a yrrir gan swyddog o'r heddlu i ddiben:
  - atal y cerbyd rhag bod yn rhwystr i ddefnyddwyr eraill neu aelodau eraill o'r cyhoedd
  - diogelu bywyd neu eiddo (gan gynnwys y cerbyd a'i lwyth) neu i ddibenion tebyg
- cerbydau nwyddau sydd â chyfarpar wedi'i gynllunio ar gyfer codi cerbydau sydd wedi torri lawr neu'n anabl (un na ellir ei yrru) yn rhannol o'r llawr a'i dynnu, cyn belled â bydd y cerbydau nwyddau:
  - ond yn cael eu defnyddio i ddelio â cherbydau sydd wedi torri i lawr neu'n anabl
  - ddim yn cael eu defnyddio i gludo unrhyw nwyddau ar wahân i gerbydau sydd wedi torri i lawr neu'n anabl ac eitemau sydd eu hangen i ddelio â cherbydau sydd wedi torri lawr neu'n anabl sydd wedi torri i lawr
  - ddim yn pwyso mwy na 3.05 tunnell heb lwyth
- cerbydau prosiect symudol sydd ag Uchafswm Màs Awdurdodedig (MAM) o fwy na 3.5 tunnell, sydd â phwrpas bennaf pan yn sefydlog fel offer chwarae, addysgol neu gyfleuster hyfforddi ac yn cario:
  - yn bennaf nwyddau neu fyrdwn yn cynnwys offer at ddibenion addysgol neu hamdden ag eitemau y byddai'n rhaid eu cael mewn cysylltiad ag offer o'r fath
  - nwyddau sydd eu hangen at ddiben hysbysu neu arddangosfa

Mae'n rhaid i'r cerbyd gael ei adeiladu neu eu haddasu i gludo dim mwy nag 8 person yn ogystal â'r gyrrwr.

Rhaid i yrwyr fod yn 21 oed ac wedi bod â thrwydded categori B am o leiaf 2 flynedd. Dim ond ar ran sefydliad anfasnachol y gellir gyrru cerbyd prosiect symudol. Os ydych yn pasio eich prawf gyrru car (category B) cyn 1 Ionawr 1997, efallai y gallwch yrru cerbyd yn fasnachol.

## Bysiau y gellir eu gyrru ar drwydded lawn car (categori B)

**Gallwch yrru unrhyw un o'r cerbydau canlynol a elwir yn gerbydau cario 'teithwyr wedi'u heithrio':**

- bws sydd dros 30 mlwydd oed cyn y dyddiad y caiff ei yrru, a ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion busnes nac i gludo mwy nag 8 o deithwyr

- bws mini â hyd at 16 o seddi i deithwyr, cyn belled â:
  - bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion cymdeithasol gan sefydliad anfasnachol ond ddim er eich budd nac am dâl (hynny yw, nid i wneud elw)
  - bod y gyrrwr yn 21 oed o leiaf
  - bod y gyrrwr wedi dal trwydded car (categori B) am o leiaf 2 flynedd
  - bod y gyrrwr wedi gwirfoddoli i yrru
  - nad yw cyfanswm pwysau'r bws mini gan gynnwys teithwyr yn fwy na 3.5 tunnell - ynghyd â 750cg o gyfarpar ar gyfer teithwyr anabl, er enghraifft ramp cadair olwyn (gweler y nodyn isod)
  - bod y gyrrwr yn gallu bodloni'r safonau iechyd ar gyfer gyrru bws mini (categori D1) os ydyw dros 70 oed

## Craeniau Symudol

**Ers 1 Ionawr 1999, mae angen trwydded yrru Categori C1 i yrru craen symudol sy'n pwyso rhwng 3.5 tunnell a 7.5 tunnell, a chategori C os bydd y craen yn pwyso dros 7.5 tunnell.**

## Cerbyd adfer bysiau

Mae cerbyd adfer bysiau (heb fod yn gerbyd nwyddau cymalog) yn gerbyd:

- sydd â phwysau heb lwyth o fwy na 10.2 tunnell
- sy'n cael ei yrru gan ddaliwr hawl category C a thrwydded gweithredwr, ac
- sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben o fynd i, neu ddychwelyd o leoliad lle bydd cymorth yn cael ei roi neu wedi'i roi i fws sydd wedi'i difrodi neu wedi torri i lawr, neu am geisio trwsio neu symud bws sydd wedi torri i lawr, neu symud cerbyd sydd wedi'i ddifrodi.

**Eithriad:** Gallwch yrru cerbydau adfer bysiau gyda hawl llawn categori D ond mae rhaid cadw at y gofyniad llawn a restrir uchod.

## Oedrannau ieuengaf

**Mae'r oedran ieuengaf ar gyfer gyrru cerbyd nwyddau sydd wedi'i eithrio yn dibynnu ar bwysau'r cerbyd hwnnw.**

**Mae'r oedran ieuengaf ar gyfer gyrru nwyddau sydd wedi'i eithrio a cherbydau sy'n cludo teithwyr yn dibynnu ar y math o gerbyd sydd yn cael ei gyrru. Dilynwch y tabl a'r nodiadau sy'n dilyn.**

# Disgrifiadau o gategorïau cerbydau cyn 19 Ionawr 2013

| Categori | Disgrifiad | Oedran ieuengaf | Nodiadau perthnasol |
|---|---|---|---|
| B | **Ceir**<br>Cerbydau modur sydd â MAM o hyd at 3,500kg, dim mwy nag 8 o seddi teithwyr gyda neu heb ôl-gerbyd yn pwyso hyd at 750kg.<br>Fel categori B ond gydag ôl-gerbyd sy'n pwyso mwy na 750kg, ni all cyfanswm pwysau'r cerbyd a'r ôl-gerbyd gyda'i gilydd fod yn fwy na 3,500kg. | **17** | **Nodiadau 1 a 6** |
| C1 | **Cerbydau maint canolig**<br>Cerbydau yn pwyso rhwng 3,500kg a 7,500kg, gyda neu heb ôl-gerbyd yn pwyso hyd at 750kg. | **18** | **Nodyn 5** |
| C | **Cerbydau nwyddau mawr**<br>Cerbydau dros 3,500kg gydag ôl-gerbyd yn pwyso hyd at 750kg. | **21** | **Nodyn 2** |
| D1 | **Bysiau mini**<br>Cerbydau sydd â 9 i 16 o seddi i deithwyr, gyda neu heb ôl-gerbyd yn pwyso hyd at 750kg. | **21** | **Nodyn 3 a 5** |
| D | **Bysiau**<br>Unrhyw fws sydd â mwy nag 8 sedd i deithwyr, gydag ôl-gerbyd hyd at 750kg. | **21** | **Nodyn 3 a 4** |

Mae pob pwysau a ddyfynnwyd ar gyfer y cerbydau perthnasol yn ymwneud ag 'Uchafswm Mass Awdurdodedig' (MAM). Dyma gyfanswm pwysau'r cerbyd pan yn 'llwythog' (llwytho).

## Nodyn 1

Yn 16 oed os ydych yn cael elfen symudedd y Taliad Annibynnol Personol (PIP) neu'r Taliad Anabledd Oedolion (ADP) ar y gyfradd uwch, elfen symudedd y Taliad Anabledd Plant (CDP) ar y gyfradd uwch neu wedi gwneud cais am PIP ar ôl derbyn elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar y gyfradd uwch. Os bydd eich amgylchiadau'n newid tra byddwch yn 16 oed a'ch bod yn colli eich budd-dal cymwys neu os caiff ei ailasesu a'i ddyfarnu ar gyfradd is, mae'n ofynnol i chi hysbysu'r DVLA, gan y gallai hyn effeithio ar eich hawl i yrru.

## Nodyn 2

Gallwch yrru pan yn 17 os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.
Gallwch yrru pan yn 18 os:

- ydych wedi pasio eich prawf gyrru a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- ydych yn dysgu gyrru neu'n sefyll prawf gyrru ar gyfer y categori hwn neu Gymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- ydych yn dilyn cwrs hyfforddiant galwedigaethol cenedlaethol i gael Cymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- cawsoch eich trwydded yrru cyn 10 Medi 2009 (os hynny rhaid i chi ddilyn hyfforddiant cyfnodol CPC o fewn pum mlynedd ar ôl y dyddiad y cawsoch eich trwydded yrru).

## Nodyn 3

Gallwch yrru pan yn 17 os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Gallwch yrru y cerbydau hyn pan yn 18 os yw un o'r canlynol yn addas:

- rydych yn dysgu gyrru neu'n sefyll prawf gyrru PCV neu ar gyfer y Cymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- ar ôl pasio prawf PCV a'r Cymhwyster Cychwynnol CPC, gallwch yrru o dan unrhyw un o'r amodau sy'n dilyn:
    - yn gyrru ar wasanaeth rheolaidd lle nad yw'r daith yn hwy na 50 cilomedr
    - ddim yn cludo teithwyr
    - yn gyrru cerbyd o ddosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
- ar ôl pasio prawf PCV cyn 10 Medi 2008 a tra yn gyrru, dan drwydded gweithredwr bws, neu drwydded bws mini neu drwydded bws cymunedol ac unrhyw un o'r amodau canlynol:
    - yn gyrru ar wasanaeth rheolaidd lle nad yw'r daith yn hwy na 50 cilomedr
    - ddim yn cludo teithwyr
    - yn gyrru cerbyd o ddosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1

Gallwch yrru pan yn 20 os ydych wedi pasio eich prawf gyrru PCV a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr.

Am gyngor pellach cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar 0300 200 1122 neu anfonwch e-bost at drivercpc@dsa.gov.uk

## Nodyn 4

Bydd angen hawl categori D arnoch i yrru bws cymalog (er enghraifft 'bendibus').

## Nodyn 5

Os llwyddoch i basio'ch prawf ar gyfer categori B neu B awtomatig cyn 1 Ionawr 1997, bydd eich trwydded eisoes yn dangos hawliau C1, C1E (8.25 tunnell), D1 a D1E (ddim er eich budd nac am dâl).

## Nodyn 6

Mae eithriad yn bodoli ar gyfer y deiliaid categori B i yrru beiciau tair olwyn modur mawr yng nghategori A ar yr amod eu bod dros 21 oed.

# Disgrifiadau o gategorïau cerbydau ar 19 Ionawr 2013 neu ar ôl hynny

| Categori | Disgrifiad | Oedran ieuengaf | Nodiadau perthnasol |
|---|---|---|---|
| B | **Ceir**<br>Cerbydau modur gyda MAM heb fod yn fwy na 3500kg, a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth o deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr gydag ôl-gerbyd hyd at 750kg.<br>Fel categori B ond gydag ôl-gerbyd sy'n pwyso mwy na 750cg, ni all cyfanswm pwysau'r cerbyd a'r ôl-gerbyd gyda'i gilydd fod yn fwy na 3,500kg. | 17 | Gweler nodiadau 1 a 6 |
| C1 | **Cerbydau maint canolig**<br>Cerbydau rhwng 3500kg a 7500kg, a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth o deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr, gydag ôl-gerbyd hyd at 750kg. | 18 | Gweler nodyn 5 |
| C | **Cerbydau nwyddau mawr**<br>Cerbydau dros 3500kg gydag ôl-gerbyd hyd at 750kg, a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth o deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr. | 21 | Gweler nodyn 2 |
| D1 | **Bysiau mini**<br>Cerbydau heb fwy nag 16 o seddi teithwyr yn ogystal â'r gyrrwr a gydag uchafswm hyd o ddim mwy nag wyth metr gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg | 21 | Gweler nodiadau 3 a 5 |
| D | **Bysiau**<br>Unrhyw fws a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth o deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr, gydag ôl-gerbyd hyd at 750kg. | 24 | Gweler nodiadau 3 a 4 |

## MAM – Uchafswm Màs Awdurdodedig

Mae pob pwysau a ddyfynnwyd ar gyfer y cerbydau perthnasol yn ymwneud ag 'Uchafswm Mass Awdurdodedig' (MAM). Dyma gyfanswm pwysau'r cerbyd pan yn 'llwythog' (llwytho). Gwelwch y nodyn am mam ar dudalen 6.

## Nodyn 1

Yn 16 oed os ydych yn cael elfen symudedd y Taliad Annibynnol Personol (PIP) neu'r Taliad Anabledd Oedolion (ADP) ar y gyfradd uwch, elfen symudedd y Taliad Anabledd Plant (CDP) ar y gyfradd uwch neu wedi gwneud cais am PIP

ar ôl derbyn elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar y gyfradd uwch. Os bydd eich amgylchiadau'n newid tra byddwch yn 16 oed a'ch bod yn colli eich budd-dal cymwys neu os caiff ei ailasesu a'i ddyfarnu ar gyfradd is, mae'n ofynnol i chi hysbysu'r DVLA, gan y gallai hyn effeithio ar eich hawl i yrru.

## Nodyn 2

Gallwch yrru pan yn 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog. Gallwch yrru pan yn 18 oed os:

- rydych wedi pasio eich prawf gyrru a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- rydych yn dysgu gyrru neu'n sefyll prawf gyrru ar gyfer y categori hwn neu Gymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- rydych yn dilyn cwrs hyfforddiant galwedigaethol cenedlaethol i gael Cymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr
- cawsoch eich trwydded yrru cyn 10 Medi 2009, rhaid i chi ddilyn hyfforddiant cyfnodol CPC i yrwyr o fewn 5 mlynedd o'r dyddiad hwn

## Nodyn 3

Gallwch yrru pan yn 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Gallwch yrru'r cerbydau hyn pan yn 18 oed os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych yn dysgu gyrru neu'n sefyll prawf gyrru PCV neu ar gyfer y Cymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr.
- rydych yn pasio prawf gyrru PCV a'r Cymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr, gallwch yrru o dan unrhyw un o'r amodau canlynol:
  - yn gyrru ar wasanaeth rheolaidd lle nad yw'r daith yn hwy na 50km
  - nad ydych yn cludo teithwyr
  - yn gyrru cerbyd o ddosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
- os gwnaethoch chi basio eich prawf PCV cyn 10 Medi 2008 ac yn gyrru o dan drwydded gweithredwr bws, neu drwydded bws mini neu drwydded bws cymunedol ac unrhyw un o'r amodau canlynol:
  - yn gyrru ar wasanaeth rheolaidd lle nad yw'r daith yn hwy na 50km
  - ddim yn cludo teithwyr
  - yn gyrru cerbyd o ddosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1.

Gallwch yrru pan yn 20 oed os ydych wedi pasio eich prawf gyrru PCV a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr.

Am gyngor pellach, cysylltwch â DVSA drwy ffonio 0300 200 1122 neu ebostio drivercpc@dvsa.gov.uk

Gallwch yrru pan yn 21 am gategorïau D a DE os:

- mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan y frigâd dan neu am gadw trefn gyhoeddus
- mae'r cerbyd yn cael profion ffordd er mwyn trwsio neu am bwrpas cynnal a chadw, neu
- oedd hawl gennych i yrru cerbyd cyn 19 Ionawr 2013

### Nodyn 4

Bydd angen hawl categori D arnoch i yrru bws cymalog (er enghraifft 'bendibus').

### Nodyn 5

Os wnaethoch basio'ch prawf ar gyfer categori B neu B awtomatig cyn 1 Ionawr 1997, bydd eich trwydded eisoes yn dangos hawliau C1,C1E (8.25 tunnell), D1 a D1E (ar gyfer hurio nac am dâl).

### Nodyn 6

Mae eithriad yn bodoli ar gyfer y deiliaid categori B i yrru beiciau tair olwyn modur mawr yng nghategori A ar yr amod eu bod dros 21 oed.

## Sut y bydd cerbydau yn cael eu dosbarthu?

Ni allwn roi cyngor cyfreithiol ar sut y bydd cerbydau'n cael eu dosbarthu ar gyfer dibenion trwyddedu gyrwyr.

Mae'n bosib y gall Adran Safonau Cerbydau Rhyngwladol yr Adran dros Drafnidiaeth eich cynorthwyo i benderfynu os yw cerbyd yn dryc gwaith, yn gerbyd modur amaethyddol, yn dractor diwydiannol neu'n offer peirianwaith, ond i ddibenion sut yr adeiladwyd ef a'r defnydd ohono yn unig.
Dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol os bydd angen.

### Os bydd gennych unrhyw gwestiynau

Ffoniwch ein canolfan gyswllt ar 0300 790 6801 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg. Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

Os ydych yn newid eich enw, cyfeiriad neu gerbyd, dywedwch wrthym ar unwaith. Os na wnewch hynny gallech gael dirwy o £1000. Am ragor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/tell-dvla-changed-address

Am wybodaeth ar newid eich enw neu ryw ewch i www.gov.uk/change-name-driving-licence

*Prynu cerbyd?*

*Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.*

**www.gov.uk/vehicletaxrules**